


## BULMER, JOHN (1784 - 1857), gweinidog Annibynnol



**Enw:** John Bulmer  
**Dyddiad geni:** 1784  
**Dyddiad marw:** 1857  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn sir Gaerefrog. Addysgwyd ef yn Rotherham o dan **Dr. Edward Williams**, a daeth, yn 1813, yn fugail tŷ cwrdd Albany (yr 'Albany Meeting'), Hwlfordd, Sir Benfro. lle yr arhosodd hyd 1840. Treuliodd weddill ei oes yn gweinidogaethu yn Rugeley, Bryste, Newbury, ac (ar ôl cyfnod) yn Langmore a Ruxton, gerllaw Ross-on-Wye. Bu farw 26 Tachwedd 1857.

Tra bu yn Hwlfordd cyhoeddodd Bulmer ddeg cyfrol yn cynnwys barddoniaeth, pregethau, a phethau crefyddol eraill. Yn eu mysy gellir nodi *The Vicar of Llandoverly*, 1821, 1831, sef fersiwn Saesneg o waith **Rees Prichard**, *Memoirs of Howell Harris*, 1824, a *Memoirs of Benjamin Evans*, 1826, un o'i ragflaenwyr yn Albany.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 11

*Y Cymmrodor*, xiii, 40

*Journal of the Welsh Bibliographical Society*, i, 4, 116

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, i, 1, 9

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733360

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodiwr gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government